

# Dod yn bobl hael

**Meddiannu'r bywyd sydd yn fywyd yn wir** 1 Timotheus 6.19



YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

## DECHRAU A DIWEDD HAELIONI YW DUW

Mae pobl yn rhoi'n aberthol a hael i'r pethau sy'n bwysig yn eu golwg nhw; pan fyddan nhw'n deall faint mae Duw wedi ei roi iddyn nhw; a phan fyddan nhw'n gwneud y cysylltiad rhwng ffydd a chyllid. Bydd cynulleidfaoedd yn ymateb i ddiwylliant o haelioni. Ar y llaw arall, heb weledigaeth, heb ddiwinyddiaeth gyfun o roi, a heb unrhyw synnwyr o sut mae ffydd yn cael effaith ar gyllid, mae plwyfi'n mynd i drafferthion ariannol.

Mae nifer o adnoddau ar gael i helpu plwyfi i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond roeddem yn teimlo bod angen dod â nhw at ei gilydd i un man. Ein nod yw darparu adnoddau i chi sy'n hawdd eu defnyddio - gan helpu i ysgafnhau'r baich yn hytrach nag ychwanegu ato. Rydym wedi darparu dull fesul cam, gan ein bod yn sylweddoli fod plwyfi ar wahanol gamau - dim ond goroesi fydd blaenoriaeth rhai, ond bydd eraill awydd tyfu.

Rydym yn darparu nifer o ddewisiadau, a bob blwyddyn mae eich eglwys yn cael ei hannog i ddewis un o'r rhain, a rhoi rhywfaint o amser i'w archwilio yn ystod y flwyddyn honno. Gan fod pedwar dewis ar gael, efallai y gwelwch chi y byddai'n fuddiol gwneud hyn dros gyfnod o bedair blynedd. Mae modd dilyn fersiwn llai dwys o rai o'r dewisiadau, ynghyd â'r dull llawn.

Er mwyn eich galluogi i deilwra eich dull o weithio i gyfateb ag anghenion a dyheadau eich eglwys, rydym wedi defnyddio deunyddiau o ffynonellau amrywiol, a beth bynnag yw arddull eich eglwys, rydym yn gobeithio y dewch chi o hyd i rywbeth a fydd yn gweithio i chi.

## RYDYM YN GOBEITHIO Y BYDD Y DULL HWN O FUDD I CHI DRWY'R FFYRDD CANLYNOL:

- Rhoi adnoddau ar gyfer unigolion / aelodau'r eglwys / disgyblion.
- Rhoi adnoddau ar haelioni cyfun yr eglwys.

## BYDD YMROI I WNEUD UN PETH BOB BLWYDDYN AM Y PEDAIR BLYNEDD NESAF YN GOLYGU:

- Bydd lefelau'r arian a roddir yn cynyddu.
- Bydd llif arian yn gwella.
- Dylai ysgafnhau'r beichiau ariannol alluogi eich eglwys i ganolbwyntio ar genhadaeth a gweinidogaeth y tu mewn a thu allan i adeilad yr eglwys.
- Bydd eich eglwys wedi cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig.
- Bydd y weledigaeth hon yn seiliedig ar asesiad realistig o'r adnoddau sydd ar gael.
- Bydd diwylliant o haelioni yn datblygu ymysg eich cynulleidfa.
- Bydd eich eglwys yn dangos haelioni yn ei gwaith rheoli ariannol.
- Bydd gan eich eglwys bolisi ar wneud y defnydd gorau o gymynroddion.
- Bydd cymynroddion yn dod yn fwy cyffredin.
- A phe na bai hynny'n ddigon mae'r holl adnoddau stiwardiaeth a argymhellir ar gael am ddim.

## BETH YW'R DEWISIADAU?

- Meithrin diwylliant o haelioni.
- Annog rhoi'n rheolaidd.
- Cynllunio a rhoi adnoddau ar gyfer twf.
- Annog rhodd sy'n parhau.

## YM MHA DREFN Y DYLEM EU GWNEUD NHW?

Rydym wedi argymell trefn sy'n gwneud synnwyr i ni, ond wrth fyfyrio ar anghenion eich plwyf, efallai yr hoffech wneud pethau mewn trefn wahanol.

**Y peth pwysicaf yw gwneud rhywbeth, a'i wneud yn dda.**

# Dod yn bobl hael

**Meithrin diwylliant o haelioni**



**Dechrau a diwedd haelioni yw Duw, a ddymunodd rannu ei fywyd gydag eraill. Felly, creodd ddynoliaeth ar ei ddelw ei hun, sy'n golygu fod yr haelioni dwyfol yn nwfn yn ein natur ni – yr awydd i roi ein hunain i eraill, heb ystyried y gost i ni ein hunain.**

Mae haelioni yn un o sgiliau bywyd ac yn ffordd o fyw. Nid sut rydym yn rhoi yw'r peth pwysicaf, ond faint rydym yn ei gadw. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonom weithio'n galed i fod yn hael – yn aml, nid yw'n hawdd, ac rydym yn dysgu drwy fyfyrio ar haelioni anhygoel Duw tuag atom ni, a chael ein hamgylchynu gan bobl hael a'r arfer o roi'n hael yng nghyd-destun yr eglwys. Os na allwn fod yn hael wrth roi tuag at waith Duw (fel bod eraill yn gallu profi'r haelioni dwyfol), ym mha ffordd arall y gwnawn ni ddysgu bod yn fwy hael?

Rydym yn gyfrifol am yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r adnoddau sy'n cael eu rhoi i ni. Mae angen i ni wynebu amharodrwydd i roi'n sylweddol, sy'n aml yn deillio o ofn, amheuaeth ac ansicrwydd.

Yn ystod y flwyddyn hon, bydd eich eglwys yn archwilio beth yw haelioni, a sut rydym yn ei gyflawni fel unigolion ac fel Cymuned Gristnogol.

Fe fyddwch yn edrych ar y modd y mae Duw yn cynnig patrymau o haelioni; sut mae clerigion ac arweinwyr yn cynnig patrymau o haelioni; sut mae'r hyn a ddywedwn ac a wnawn yn adlewyrchu haelioni Duw, a sut mae'r eglwys fel elusen yn dangos haelioni.

Y gobaith ar gyfer y flwyddyn hon yw gweld:

- Twf unigol mewn disgyblaeth.
- Adnoddau ariannol i gefnogi twf mewn cenhadaeth a gweinidogaeth.
- Cyfoethogi cenhadaeth a gweinidogaeth eich eglwys.

### ADNODDAU SYDD AR GAEL:

- Adnoddau pregethu
- Adnoddau dysgu
- Deunyddiau astudio

## Cymorth ac adnoddau eraill

**www.parishresources.org.uk/giving.htm**
**www.givingingrace.org/index.html**
**www.churchinwales.org.uk/asaph/life/funding/stewardship**
**www.stewardship.org.uk/money/spotlight/seasons-of-giving**

# Dod yn bobl sy'n rhoi

**Annog rhoi'n rheolaidd**



**Mewn eglwys o stiwardiaid ffyddlon, yr unig rai a ddylai fod yn rhoi arian parod ar y plât casglu yw'r rhai sy'n newydd i'r eglwys neu'r rhai sy'n ymweld â chi. Dylid annog rhoddwyr rheolaidd i ddefnyddio un o'r ffyrdd eraill o roi.**

Mae Rhoi'n Uniongyrchol yn sicrhau bod rhodd fisol reolaidd yn mynd yn syth i gyfrif banc y plwyf, ynghyd ag unrhyw rodd cymorth. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weinyddu o'r Swyddfa Daleithiol, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim i blwyfi. Mae'n lleihau baich gwaith yr Ysgrifennydd Rhodd Cymorth ac yn gwella'r llif arian.

Mae tystiolaeth yn dangos fod y dull hwn o roi wedi bod yn ddefnyddiol wrth alluogi'r gymuned i gynnig cefnogaeth ariannol i'r eglwys.

Yn ystod y flwyddyn hon, byddwch yn annog pobl i roi arian i'r eglwys mewn ffordd reolaidd wedi ei chynllunio ymlaen llaw, waeth pa mor aml maen nhw'n bresennol. Y cynllun Rhoi'n Uniongyrchol yw un o'r ffyrdd gorau o gyflawni hyn.

**ADNODDAU SYDD AR GAEL**

- Astudiaethau achos
- Canllaw i'r Cyngor Plwyfol Eglwysig ar arwain rhaglen
- Taflen yn ymgorffori dogfennau ymuno
- Posteri
- Llythyrau i'w defnyddio gyda thaflen fel rhan o apêl gynulleidfaol
- Llythyrau i'w defnyddio gyda thaflen fel rhan o apêl gymunedol

## Cymorth ac adnoddau eraill

**www.churchinwales.org.uk/resources/giftdirect/**

**www.churchinwales.org.uk/asaph/life/funding/giftaid/**

# Dod yn bobl â gweledigaeth

**Cynllunio twf**



**Petai chi'r unig Gristion yn eich cymuned, sut fyddech chi’n lledaenu’r newyddion da am Iesu Grist? Gallai hwn fod yn lle da i ddechrau wrth geisio dirnad gweledigaeth a diben Duw. O fod yn agored i Dduw mewn gweddi, bydd proses o gynllunio gweledigaeth yn eich helpu chi a’ch eglwys i dyfu.**

Yn ystod y flwyddyn hon, bydd eich eglwys yn diffinio ei diben ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Gofynnir i chi ystyried beth sydd eisoes gennych chi (pobl, sgiliau, arian ac adnoddau eraill) a beth yw anghenion eich cymuned leol.

Fe wnawn ni awgrymu adnoddau a allai eich helpu i gyrraedd consensws ar y ffordd ymlaen, a fydd o gymorth maes o law i gyfleu’r weledigaeth honno i gynulleidfaoedd, cymunedau a sefydliadau a phartneriaid eraill rydych chi’n gobeithio cydweithio â nhw.

Mae sawl agwedd ar dwf eglwysi:

- Twf yn y niferoedd.
- Twf ysbrydol personol.
- Dyfnder a chryfder bywyd y gymuned Gristnogol.
- Tyfu yn ein gwasanaeth i’r gymuned.

### ADNODDAU SYDD AR GAEL


- Doniau ysbrydol
- Eglwysi iach
- Arwain eich eglwys at dwf
- Cynllunio gweithredu cenhadaeth (MAP)
- Rhoi adnoddau ar gyfer twf

## Cymorth ac adnoddau eraill

**www.chpublishing.co.uk/healthychurches**
**www.churchmaps.co.uk/**
**www.leadingyourchurchintogrowth.org.uk/**
**www.givingingrace.org/leadership/caseState_L5.html**

# Dod yn bobl ystyriol

**Annog rhodd sy’n parhau**



**Yn ystod 2010, rhoddwyd yn agos at £2.5 miliwn mewn cymynroddion ledled yr Eglwys yng Nghymru. Mae cael polisi pendant ar gymynroddion yn dangos yn eglur i roddwyr fod croeso i roddion o'r fath, yn cynnig cyfleoedd i drafod y mater, ac yn tawelu eu meddwl y bydd eu rhoddion yn cael eu defnyddio'n ddoeth.**

Mae gwneud ewyllys yn sicrhau fod yr hyn rydych yn ei adael yn mynd i bobl rydych chi eisiau iddyn nhw ei gael – ac yn sicrhau fod eich rhodd yn eu cyrraedd yn gynt, ac eto mae nifer o aelodau'r eglwys heb wneud ewyllys hyd yma.

Yn ystod y flwyddyn hon, bydd eich eglwys yn:

- Annog pob aelod i wneud ewyllys, neu adolygu'r un sydd ganddyn nhw.
- Gofyn i'r Cyngor Plwyfol Eglwysig gytuno ar bolisi ar gymynroddion.
- Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael gyda'r gynulleidfa.

**ADNODDAU SYDD AR GAEL**

- Sesiwn addysgu ar faterion diwinyddol ac eglwysig yn ymwneud â chymynroddion
- Cynghorion ar sut i gynnal rhaglen ymwybyddiaeth o gymynrodd – a sut i beidio â rhedeg rhaglen o'r fath!
- Arweiniad gam wrth gam ar ddefnyddio'r deunyddiau
    - Taflen i'r Cyngor Plwyfol Eglwysig
    - Taflen i'r gynulleidfa
    - Adnoddau ar bregethu a gweddïo
    - Pytiau ar gyfer cylchgrawn y plwyf
    - Nodlyfrau
    - Posteri

## Cymorth ac adnoddau eraill

**www.churchinwales.org.uk/publications/downloads/**
**www.parishresources.org.uk/legacies.htm**
**www.churchlegacy.org.uk/**

## Blaenoriaethau

**Unigolion:** ________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

**Plwyfi:** ________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

## Camau nesaf

**Unigolion:** ________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

**Plwyfi:** ________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

________________________________________

**Lluniwyd y daflen hon gan Weithgor Stiwardiaeth Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru**